



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Datganiad Caethwasiaeth a Masnachu Pobl Rhagfyr 2020

Mae Coleg Gŵyr Abertawe ("y Coleg") yn Goleg Addysg Bellach a leolir yn gyfan gwbl yn y Deyrnas Unedig. Lleolir campysau'r Coleg yn Abertawe, Cymru ac mae'r Coleg yn darparu addysg a hyfforddiant ar draws y DU. Mae gan y Coleg oddeutu 4,200 o fyfyrwyr amser llawn, 2,500 o brentisiaid a 3,500 o ddysgwyr rhan-amser.

Mae'r Coleg yn credu ei bod hi'n hollbwysig, wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, bod hyn yn cael ei wneud heb achosi niwed i eraill, ac mae wedi ymrwymo i weithredu'n foesebol a chydag unplygrwydd yn ei holl drafodion a chysylltiadau busnes.

Wrth wneud hynny, mae'r Coleg yn cefnogi ymagwedd Llywodraeth y DU at weithredu Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol trwy roi gwybod i'n staff, ein myfyrwyr, ein llywodraethwyr a'n rhanddeiliaid am ein polisi ar gaethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur dan orfod a rhwymedig, ac ymyriadau â hawliau llafur yn ei gadwyni cyflenwi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi i helpu i roi sylw i faterion caethwasiaeth fodern. Mae'r Coleg wedi nodi nifer o gamau gweithredu o fewn y 12 Ymrwymiad a nodwyd yn y Cod.

Mae'r Coleg yn prynu llawer o'i nwyddau a'i wasanaethau gan gonsortia prynu sector cyhoeddus. Y prif gonsortia a ddefnyddir gan y Coleg yw:

- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS)
- Consortiwm Caffael Crescent (CPC)
- Consortiwm Caffael Addysg Uwch Cymru (HEPCW)
- Sefydliad Arlwywyr Prifysgol (TUCO)

Mae'r consortia hyn yn datblygu prosesau i reoli risgiau i gadwyni cyflenwi sy'n ymwneud â chaethwasiaeth a masnachu pobl. Yn ogystal, mae'r consortia wedi cyhoeddi eu Datganiadau Caethwasiaeth a Masnachu Pobl eu hunain sy'n datgan sut maen nhw'n bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn trwy'r prosesau caffael maen nhw'n eu rheoli.

Mae Strategaeth Gaffael y Coleg yn cynnwys egwyddorion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a chaffael moesegol. Mae'r Strategaeth Gaffael yn datgan mai polisi'r Coleg yw ceisio canfod a phrynu nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu o dan amodau sydd heb gynnwys cam-drin neu gamfanteisio ar unrhyw unigolion, gan gwmpasu'r agweddau canlynol:

- Llafur plant/dan orfod
- Amodau gwaith
- Iechyd a Diogelwch
- Gwahaniaethu
- Cyflogau
- Oriau gwaith


Mae'r Coleg wedi nodi'r categorïau canlynol fel rhai lle mae risg uchel - Dillad, Bwyd ac Offer TGCh. O ganlyniad, bydd yn canolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd hyn.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r Coleg yn mynegi ei ymrwymiad i:

- Ddeall ein cadwyni cyflenwi yn well a gweithio tuag at sicrhau mwy o dryloywder a chyfrifoldeb ar gyfer y bobl sy'n gweithio ynddynt.
- Monitro meysydd sy'n cynrychioli risg, gweithio gyda chyflenwyr, sefydliadau fframwaith a deiliaid rhyddfrint.
- Lleihau'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi, a chymryd camau priodol os oes angen.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n cynrychioli datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl y Coleg am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Gorffennaf 2020.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Fwrdd Corfforaeth Coleg Gŵyr Abertawe yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2020.



Merion Howells,
Cadeirydd Bwrdd Corfforaeth Coleg Gŵyr Abertawe
10 Rhagfyr 2020